**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

**National Assembly for Wales**
Committee for the Scrutiny of the First Minister

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel, Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1NA

23 Tachwedd 2017

Annwyl Brif Weinidog

**Cyfarfod ar 27 Hydref 2017**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yng Nghwmbrân ar 27 Hydref. Rwy'n gobeithio y byddwch yn cytuno, o ystyried y pwnc a drafodwyd gennym, mai buddiol oedd cynnal y cyfarfod mewn lleoliad sy'n cynorthwyo pobl ifanc i gyrraedd eu nodau.

Yn dilyn y cyfarfod, cytunodd yr Aelodau y dylwn ysgrifennu atoch gyda rhai cwestiynau ychwanegol a gofyn am eglurhad pellach ar nifer o'r materion a drafodwyd.

**Monitro Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn)**

Fe wnaethoch chi ddweud yn ystod y cyfarfod mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU oedd ymateb yn uniongyrchol i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn sgil ei harchwiliad, ym mis Mehefin 2016, o'r modd y mae llywodraethau datganoledig y DU yn gweithredu'r Confensiwn.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ynghylch cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â monitro'r Confensiwn, yn ogystal â sut yr ydych yn bwriadu ymateb i'r 'Sylwadau i Gloi' a wnaed gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â Chymru a chyfrifoldebau datganoledig. O fewn hyn, mae gennym

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
CraffuPW@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/CraffuPW
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
ScrutinyFM@assembly.wales
www.assembly.wales/ScrutinyFM
0300 200 6565

ddiddordeb gwybod a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i gyhoeddi cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed, fel y gofynnwyd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig a Chomisiynydd Plant Cymru.

**Ymwybyddiaeth o’r Comisiwn a Hawliau Plant**

Mewn trafodaethau cynharach a gynhaliodd y Pwyllgor gyda phlant a phobl ifanc, roedd yn amlwg bod lefelau gwahanol o ymwybyddiaeth o hawliau plant ymysg y grŵp, yn enwedig o ran y Confensiwn a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru). Yng ngoleuni hyn, byddem yn ddiolchgar pe gallech chi amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu â phlant a phobl ifanc yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o'u hawliau.

**Asesu’r Effaith ar Hawliau Plant**

Mae gan yr Aelodau bryderon ynghylch cadernid y broses Asesu’r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) o ran sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael sylw mewn penderfyniadau polisi a chyllidebol, ac y gallai asesiadau effaith integredig beidio â bod yn ddigon ar eu pennau eu hunain.

Roeddem hefyd yn pryderu yr ymddengys mai ychydig iawn o enghreifftiau a geir o achosion lle mae'r broses CRIA wedi cael effaith gadarn ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru mewn ffordd sydd wedi gwneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc. Byddem yn croesawu unrhyw enghreifftiau o hyn y gallwch eu darparu.

**Hawliau Plant yn dilyn Brexit**

Croesawodd yr Aelodau eich ymrwymiad i roi ystyriaeth bellach i sefydlu pwyllgor cynghori o bobl ifanc i hysbysu gwaith Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â Brexit. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi rhagor o wybodaeth am unrhyw fecanweithiau y bwriadwch eu rhoi ar waith i sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael eu clywed fel rhan o’r broses o ymadael â’r UE.

**Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Blant sy'n Derbyn Gofal**

Byddai'r Aelodau'n gwerthfawrogi rhagor o wybodaeth am y trefniadau i arwain y grŵp hwn a sut mae'n cyfrannu at lunio polisïau.

**Gwaith ieuenctid**

Cododd y Pwyllgor bryderon gyda chi ynghylch yr arian sydd ar gael ar gyfer gwaith ieuenctid a'r goblygiadau ar gyfer cynnal darpariaeth leol werthfawr, megis Canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân. Er ein bod yn cydnabod y pwysigrwydd bod awdurdodau lleol yn pennu'r ddarpariaeth ieuenctid sydd ei hangen ar gyfer eu hardaloedd, buom yn trafod gyda chi y posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith canlyniadau sy'n sicrhau lefel ddigonol o ddarpariaeth. Mae'r Pwyllgor yn croesawu eich cytundeb i roi ystyriaeth bellach i'r mater hwn ac i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda rhagor o wybodaeth maes o law.

**Profiad gwaith**

Clywodd y Pwyllgor gan bobl ifanc am yr anawsterau a gawsant o ran cael lleoliadau profiad gwaith priodol ac ystyrlon. Fel y cytunwyd yn y cyfarfod, byddwn yn rhoi enghreifftiau i chi ar wahân maes o law sy'n amlygu'r heriau penodol a fynegwyd wrthym.

Yn gywir

**Ann Jones AC**
**Y Dirprwy Lywydd**
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog**